

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 10fed Hydref 2022.

Presennol– Mari E M Mathews Cadeirydd, Neil Pringle, Janet Charlton, Catherine Williams, Ffiona Jones, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Janet Charlton, Anna Brown, Elisabeth Roberts

Datgan diddordeb - Dim datganiad

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar yr 20fed Fedi 2022

Aelod Newydd, Croesawyd Ffiona Jones Pant-yr Hyddod yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Dywedodd y clerc bod cyfarfod wedi ei drefnu gyda'r Prif Arolygwr ar gyfer dydd Mawrth 18fed am 3.00 ym yn y Neuadd Goffa.

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Nodwyd bod y Cyng E Roberts mewn trafodaeth gyda Bryn Shiland Cyngor BS Conwy ynglŷn a'r mater.

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Deallwyd nad oes caniatâd cynllunio wedi ei dderbyn hyd hyn.

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Y clerc i geisio'r sefyllfa ddiwedddara gan APCE ynglun a'r mater.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Nodwyd bod cyfarfod wedi ei gynnal gyda Robin Millar AS a Katie Club Cartrefi Conwy, a bu trafodaeth ynglun a'r posibilrwydd o gyflogi rhywun i ymgymryd â gwaith cysylltiad gyda'r gymuned a hefyd ymgynghorwyr i amlinellu cynigion ayb. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu Katie Clubb.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Nodwyd yn siomedig nad oedd y gwaith wedi ei wneud oherwydd diffyg diddordeb gan gwmniai i wneud y gwaith.

[1.6] Dyn mewn Fan

Y clerc i gysylltu'n bellach gydag Edward Jones APCE

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.8] Holiadur Cymuned

Nodwyd yr adroddiad a phenderfynwyd ei drafod yn y cyfarfod nesaf

[1.9] Clwb Peldroed Betws

Y clerc i gysylltu gyda 'r contractwr i drefnu ymweliad a'r safle.

[2] Safle We'r Cyngor

Y clerc i drefnu cyfarfod gyda Nick Ferguson / Mari E M Mathews.

[2.1] Hen Eglwys Saint Mihangel

Eglurodd y clerc nad oes ateb wedi ei dderbyn gan y Parch Stuart Elliot ynglŷn â chyflwr y fynwent. Cytunodd y Cyng Janet Charlton i gael golwg.

[2.2] Mynwent Erw Hedd

Y clerc i wneud ymholiad tybed a ydi'n bosib plannu'r goeden sydd ar gael gan APCE yn rhywle arall yn y pentre'

Y Brif Agenda

[2.3] Materion Cynllunio

[a] Dymchwel y teras mynediad to presennol ac adeiladu canopy ffurfio llecyn eistedd dan do o flaen y gwesty.

Gwesty'r Gwydr, Ffordd Caergybi, Betws-y-Coed.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad yn amodol bod yr adeilad yng nghyd fynd ar adeiladau presennol.

[b] Cyfeiriodd y clerc at lythyr gan Mr George Price yn datgan pryder ynglun a'r cyfnod i wneud sylwadau i geisiadau cynllunio.

Y clerc i anfon gair at Mr Price yn esbonio mae dim ond yn ymgynghorol mae'r Cyngor Cymuned yn gweithredu mewn materion cynllunio ac yn y dyfodol y bydd ceisiadau yn cael ei cynnwys ar y safle we a hefyd facebook.

[2.4] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Medi 2022

[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Raeadr Ewynnol wedi gostwng yn gymharol i gyfnod yr haf 2021.

[2.5] Nadolig Betws-y-Coed

Yn dilyn trafodaeth ynglŷn ag ail sefydlu'r digwyddiad, dywedodd y Cadeirydd y byddai'n cysylltu gyda busnesau lleol a cheisio cael pobl at ei gilydd. Bydd hefyd yn cael ei gynnwys ar facebook.

[2.6] Ardal Cadwraeth

Cyfeiriodd y clerc at yr ymgynghoriad gan APCE a oedd wedi ei gylch redeg, bod angen anfon sylwadau ayb. Penderfynwyd trafod y mater yn y cyfarfod nesaf. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ei gynnwys ar facebook.

[2.7] Pwyntiau Hanesyddol

Penderfynwyd cyfrannu £1600.00 tuag at gynhyrchu fideos a recordiau o'r Rhaeadr Ewynnol ar gyfer pobl gydag anabledd synhwyraidd

Mari E M Mathews, Cadeirydd